# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Irving, Arwel Roberts a Melvyn Mile (Eitemau 1-3 ar y Rhaglen)

Y Cynghorwyr Alan James, Arwel Roberts a Melvyn Mile (Eitem 4 ar y Rhaglen)

Arsyllwr – y Cynghorydd Alan James (Eitemau 1-3 ar y Rhaglen)

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## PWYNT SYLW

Gadawodd y Cynghorydd Hugh Irving y cyfarfod ar ddiwedd eitem 3 ar y rhaglen a daeth y Cynghorydd Alan James i gadeirio'r cyfarfod yn ei le.

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Hugh Irving yn Gadeirydd ar gyfer eitem 3.
Penodwyd y Cynghorydd Alan James yn Gadeirydd ar gyfer eitem 4.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu hanfon at bawb ymlaen llaw ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – THE BARRELL, 37-39 STRYD Y DŴR, Y RHYL

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

(i) cais wedi dod i law gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded eiddo a ddelir gan Mr Ian Mcallister mewn perthynas â The Barrell, 37-39 Stryd y Dŵr, y Rhyl (copi o'r Drwydded Eiddo bresennol a'r amserlen weithredu gyfredol wedi'u hatodi fel Atodiad A i'r adroddiad);

(ii) y sail i adolygu yn gysylltiedig â’r Amcanion Trwyddedu i Atal Trosedd ac Anhrefn ac er mwyn Diogelwch y Cyhoedd fel a ganlyn –

- *“Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddiffyg hyder yn rheolwyr yr eiddo i reoli'r eiddo’n gyfrifol*
- *Methu â herio cwsmeriaid meddw a chaniatáu i gwsmeriaid feddwi ar y safle a gwerthu diod i gwsmeriaid meddw*
- *Methu â rheoli ymddygiad cwsmeriaid ar y safle*
- *Methiant y safle i reoli achosion o drosedd ac anhrefn yn ddigonol*
- *Tystiolaeth o amgylchedd o fewn yr eiddo lle caiff cymryd cyffuriau ei oddef yn agored*
- *Methu â rhoi gwybod am yr holl achosion o drosedd ac anhrefn i Heddlu Gogledd Cymru*
- *Mae Heddlu Gogledd Cymru o’r farn nad yw’r oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy yn addas ar gyfer yr eiddo a bod y rhan fwyaf o achosion mawr yn digwydd ar ôl 00:00*
- *Methu â hyrwyddo’r Amcanion Trwyddedu, yn enwedig Atal Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Niwsans Cyhoeddus”*

Manylion llawn y cais i adolygu wedi'u hatodi i'r adroddiad fel Atodiad B;

(iii) nid oedd unrhyw sylwadau pellach wedi dod i law gan Awdurdodau Cyfrifol nac aelodau o'r cyhoedd mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus gofynnol ynglŷn â’r cais i adolygu.

(iv) cyfeiriad at y protocol gorfodi ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru a’r Cyngor a’r system orfodi tri cham sy’n arwain at gais i adolygu’r Drwydded Eiddo;

(v) Mr Sean Mountford wedi cael ei gynnig i fod yn Oruchwylydd Dynodedig yr Eiddo yn yr eiddo ar ôl cyflwyno'r cais i adolygu, ond nid oedd unrhyw gais swyddogol wedi'i dderbyn yn hynny o beth ac felly Mr David Jai Jones oedd Goruchwylydd Dynodedig yr Eiddo’n dal i fod.

(vi) yr angen i ystyried y cais i adolygu gan roi ystyriaeth briodol i’r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor, a

(vii) dewisiadau a oedd ar gael i'r Pwyllgor wrth benderfynu ar y cais i adolygu.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) yr adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Roedd y Prif Arolygydd, Andrew Williams, a Rheolwr Trwyddedu’r Heddlu, Aaron Haggas, yn bresennol i gefnogi'r Adolygiad ar ran Heddlu Gogledd Cymru.

Tynnodd Rheolwr Trwyddedu’r Heddlu sylw at ddyletswyddau eiddo trwyddedig i hybu'r amcanion trwyddedu a chymryd camau gweithredol yn hynny o beth. Dywedodd na ddylai’r digwyddiadau sy’n cael eu hamlygu yn y cais am adolygiad

gael eu cyfrif yn ganlyniad arferol i fusnesau trwyddedig na phroffil y dref ac roedd y camau a gymerwyd gan yr eiddo'n rhoi canllaw i'r safon o ymddygiad a fyddai'n cael ei goddef. Roedd Heddlu Gogledd Cymru'n ystyried bod y diffyg goblygiadau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol yn yr eiddo wedi achosi i ymddygiad o'r fath ddod allan i Stryd y Dŵr a bod diffyg rheolaeth a chyfarwyddyd gan yr eiddo'n creu arfer o anhrefn lle mae nifer o ddigwyddiadau angen cymorth gan yr Heddlu. Dywedwyd hefyd nad oedd yr eiddo wedi gwneud unrhyw ymgais i fynd i'r afael â phryderon ac roedd yr Heddlu wedi cyflwyno nifer o strategaethau, gan gynnwys cwtogi'r oriau a ganiateir, a'r unig newid a weithredwyd oedd trosglwyddo cyfrifoldeb dros reoli'r eiddo i aelod arall o'r teulu. Roedd yr eiddo'n daer o blaid aros ar agor ar ôl hanner nos gan mai dyma eu cyfnod prysuraf a'u bod yn rhoi masnach o flaen hybu'r amcanion trwyddedu. Yn olaf, nodwyd bod diffyg camau gweithredol gan yr eiddo wedi hybu ymddygiad annerbyniol gan gwsmeriaid ac wedi rhoi'r cyhoedd a staff mewn perygl.

Darparodd y Prif Arolygydd, Andrew Williams, gyd-destun i'r cais am adolygiad o ran y gymuned ehangach a'r buddsoddiad i adfywio'r Rhyl, ynghyd â chyfrifoldeb yr Heddlu i sicrhau amgylchedd diogel i breswylwyr ac ymwelwyr. Mewn perthynas â'r economi gyda'r nos, roedd y pwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys herio ymddygiad meddw a'i ganlyniadau. Cyfeiriodd y Prif Arolygydd at ei gyflwyniadau a'r dystiolaeth a ddarparwyd o fewn y cais i adolygu a thynnodd sylw at y canlynol –

- credai mai The Barrell oedd yr eiddo trwyddedig â'r rheolaeth waethaf yr oedd wedi'i weld yn ystod ei yrfa yn yr Heddlu a thynnodd sylw at 24 o achosion a nodwyd yn y cais i adolygu a ddigwyddodd rhwng 3 Ionawr 2018 a 30 Medi 2018. Roedd y rhan fwyaf helaeth o'r achosion hynny wedi bod yn ystod oriau mân y bore ac roeddent yn cynnwys ymddygiad meddw gan y cwsmeriaid.
  Mewn cyfarfod gyda'r Heddlu ar 24 Medi 2018 roedd Ian Mcallister, a oedd wedi dod yn rheolwr ar yr eiddo yn lle ei fab Mark Mcallister, wedi rhoi sicrwydd ynglŷn â rheolaeth yr eiddo yn y dyfodol. Er gwaethaf y sicrwydd hwnnw, nid oedd tystiolaeth i gefnogi unrhyw fesurau i geisio mynd i'r afael â'r problemau yn yr eiddo ac roedd problemau wedi parhau i ddod i'r amlwg. Roedd y digwyddiad mwyaf a'r achos pryder mwyaf a oedd wedi'i nodi yn y cais am adolygiad wedi digwydd yn yr eiddo ar 29 Medi 2018 ac roedd yn cyfeirio at ymosodiad treisgar gyda gwydr ar ferch a oedd wedi'i hanffurfio am oes. Ni alwyd yr Heddlu am bron i awr ar ôl y digwyddiad, a oedd yn dangos nad oedd unrhyw welliant yn y ffordd roedd yr eiddo'n cael ei reoli er bod Ian Mcallister yn ddeiliad trwydded profiadol ers cryn amser.
- bu digwyddiadau eraill ers cyflwyno'r cais am adolygiad (roedd manylion y rheini wedi'u rhannu cyn y cyfarfod) ac fe eglurodd y rheini er budd yr Is-bwyllgor Trwyddedu.
  I grynhoi, roedd pedwar digwyddiad wedi bod yn ystod y cyfnod ar 26 Hydref 2018, 20 Tachwedd 2018, 24 Tachwedd 2018 a 27 Tachwedd 2018 yn ymwneud ag ymddygiad bygythiol neu ymosodiadau. Roedd y digwyddiad diwethaf wedi bod yn oriau mân y diwrnod cynt pan oedd ymosodiad wedi'i riportio yn yr eiddo. Roedd y rhai a oedd ynghlwm yn feddw yn ôl yr Heddlu ac fe aethpwyd â'r un dan amheuaeth o achosi'r helynt oddi yno. Gadawyd y rhai a oedd ar ôl yno'n ôl i mewn i'r eiddo ar ôl i'r Heddlu adael, er i'r Heddlu roi cyngor i wrthod gwerthu mwy iddynt, ac roedd yr unigolion hynny wedyn yn rhan o

ddigwyddiad arall yn yr ardal.  Er bod yr Heddlu’n derbyn nad oedd Ian Mcallister wedi bod yn gyfrifol am yr eiddo tan fis Medi 2018, ni fu unrhyw welliant pan oedd o’n rheolwr.

- dywedwyd eto bod y rhan fwyaf helaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi digwydd yn oriau mân y bore ac, yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd yr Heddlu wedi cael eu galw fel mater o drefn i achosion o anhrefn fel roedd tystiolaeth y cais am adolygiad yn ei nodi.  Roedd yn amlwg nad oedd gofyn i rai a oedd yn achosi problemau yn yr eiddo adael; roedd unigolion meddw'n cael parhau i yfed yn yr eiddo; roedd cwsmer wedi cymryd cyffuriau'n agored yn yr eiddo a phan ddywedwyd wrtho am stopio, caniatawyd iddo barhau i yfed ac ni alwyd yr Heddlu.  Er gwaethaf sicrwydd yn y gorffennol i'r gwrthwyneb, roedd tystiolaeth bod Mark Mcallister yn dal ynghlwm â'r eiddo – roedd wedi’i weld yn mynd i’r eiddo’n aml a gofynnodd am gael cyfarfod gyda’r Cyngor mewn perthynas â’r safle.

Wrth gloi ei gyflwyniad, teimlai'r Prif Arolygydd mai diddymu’r drwydded fyddai’r cwrs mwyaf priodol yn yr achos hwn o ystyried y pryderon o ran diogelwch y cyhoedd a phroblemau trosedd ac anhrefn a oedd yn gysylltiedig â’r eiddo ar ei ffurf bresennol.

Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd y Prif Arolygydd bod digon o gyfleoedd wedi bod i reolwyr yr eiddo ymgysylltu gyda'r Heddlu a mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.  Cadarnhawyd bod y protocol gorfodi ar y cyd gyda’r Heddlu a’r Cyngor wedi'i ddilyn ac roedd cyfarfodydd cam 1 a cham 2 o'r protocol hwnnw wedi'u cynnal.  Roedd yr Heddlu hefyd wedi cyfarfod gydag Ian Mcallister pan ddaeth yn rheolwr ar yr eiddo ac roedd cyfarfod arall wedi’i gynnal gyda’i gynrychiolydd cyfreithiol yr wythnos flaenorol pan oedd wedi cynnig amser terfyn o 1:30am.  Fodd bynnag, nid oedd yr Heddlu’n ystyried bod yr amser hwnnw'n briodol o ystyried bod y rhan fwyaf o'r achosion wedi digwydd ar ôl hanner nos ac roeddent yn credu bod cyflwyno amser terfyn o 1:30am yn seiliedig ar ystyriaethau ariannol yn hytrach nag ar fynd i'r afael â'r broblem o ran diogelwch y cyhoedd.

**CYNRYCHIOLYDD DEILIAD TRWYDDED YR EIDDO**

Roedd Ian Mcallister (Deiliad Trwydded yr Eiddo) yn bresennol yn y cyfarfod gyda’i ferch a'i gynrychiolydd cyfreithiol, Mr Ryan Rothwell, Linenhall Chambers.

Wrth gyflwyno'r achos dros ei gleient, bu i Mr Rothwell –

- ddweud y byddai'n anghyfiawn ac anghymesur diddymu'r drwydded ar y cam hwn gan ddatgan nad oedd ei gleient wedi cael digon o rybudd i ddatrys y problemau a oedd wedi bod yn yr eiddo.
  Nid oedd yr eiddo wedi bod ger bron yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn y gorffennol ac ni fu unrhyw gais blaenorol chwaith i adolygu'r drwydded, a ddylai gael ei ddefnyddio pan fetho popeth arall, yn enwedig o ystyried y gallai'r problemau gael eu datrys yn briodol drwy gwtogi’r amser terfyn – yn hynny o beth, awgrymodd y byddai 1:00am yn amser priodol.  Ar ben hyn, ni fynegwyd unrhyw gefnogaeth i ddiddymu'r drwydded ar ffurf sylwadau a dderbyniwyd gan Awdurdodau Cyfrifol na'r cyhoedd yn dilyn hysbysiad cyhoeddus ynglŷn â’r cais i adolygu.

- dweud bod gan Ian Mcallister dros dri deng mlynedd o brofiad fel deiliad trwydded a'i fod wedi dod i reoli'r eiddo ar 24 Medi 2018 – nid oedd ynghlwm â'r safle o gwbl cyn y dyddiad hwnnw pan oedd y rhan fwyaf o'r achosion wedi digwydd ac felly roedd yn annheg awgrymu bod Ian Mcallister wedi cael digon o gyfle i fynd i'r afael â'r problemau pan nad oedd ond wedi dod yn gyfrifol am yr eiddo am ddau fis, yn enwedig o ystyried bod ei fab, Mark Mcallister wedi cael cyfnod o ddeng mis cyn i Ian Mcallister ddod yn rheolwr.
- cytuno gyda'r Heddlu, i raddau, nad oedd proffil cymdeithasol y dref a'r ffaith bod achosion yn rhan greiddiol o hynny yn golygu y dylid eu goddef ac y dylai'r eiddo weithredu i ddatrys y problemau yn yr eiddo. Fodd bynnag, roedd gan y Rhyl, fel tref, broblemau gydag yfed yn hwyr y nos ac, yn naturiol, roedd digwyddiadau yn yr amgylchedd hwnnw ac er bod ymgyrch i fynd i'r afael â hynny, roedd llawer o waith i'w wneud ac, mewn gwirionedd, ni fyddai cau'r eiddo'n llwyr yn cyfrannu at y nod hwn.
- dadlau yn erbyn yr honiadau nad oedd y rheolwyr wedi cydweithredu gyda'r Heddlu ac roedd Ian Mcallister o'r farn bod yr Heddlu wedi rhoi'r gorau i gydweithredu ag o. Roedd Ian Mcallister wedi rhoi nifer o fesurau ar waith fel a ganlyn –
  - Teledu cylch caeëdig – roedd nifer o gamerâu a oedd wedi torri'n arfer bod yno a bellach roedd 16 o gamerâu'n gweithio'n iawn yn yr eiddo. Roedd y fideos yn cael eu cadw am gyfnod priodol ac, mewn rhai achosion, roedd y fideos wedi'u darparu i'r Heddlu ac roedd rheolwyr yr eiddo wedi eu cynorthwyo.
  - Roedd gwahanol aelodau o staff wedi'u diswyddo a rhai newydd wedi'u cyflogi yn eu lle, a oedd yn cadarnhau bod y gweithiwr a oedd wedi gweld cyffuriau'n cael eu defnyddio yn yr eiddo ac wedi methu â gweithredu wedi cael ei ddiswyddo, ac roedd y gweithwyr wedi derbyn hyfforddiant.

    I helpu i ddelio â'r materion penodol a godwyd gan yr Heddlu, roedd Ian Mcallister wedi bod ar nifer o gyrsiau hyfforddi a chyflwynodd dystysgrifau hyfforddi fel tystiolaeth (yn y cyfarfod) mewn perthynas â gwirio oed; atal gwerthu i rai dan oed; ymwybyddiaeth o gyffuriau a chwrs e-ddysgu ar alcohol a'i effeithiau, y gyfraith ynglŷn â gwerthu alcohol, amddiffyn plant, cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymdrin â throseddau sy'n ymwneud ag alcohol.
  - Staff ar y drws – o ran y digwyddiad ym mis Awst 2018 yn cynnwys aelod o staff ar y drws ddim yn cynorthwyo i roi stop ar baffio, nodwyd mai gweithiwr ar y drws dros dro a oedd ar ddyletswydd bryd hynny, wedi'i ddarparu gan asiantaeth, ac roedd y goruchwylydd parhaol ar y drws yn delio â materion yn briodol.
- dywedwyd bod nifer o newidiadau wedi bod yn ddiweddar ers newid y rheolwr ac awgrymodd y dylai'r eiddo weithredu ar lai o oriau am gyfnod prawf o dri mis yn hytrach na diddymu'r drwydded.
- roedd Ian Mcallister wedi cydnabod yn glir bod angen gwneud newidiadau, fodd bynnag, mewn cyfarfod gyda'r Heddlu wythnos ynghynt, dywedodd y cyfreithiwr nad oedd y Prif Arolygydd wedi bod yn agored i drafod ynglŷn â chwtogi'r amser terfyn ac roedd yn credu y dylid diddymu'r drwydded gan fod yr eiddo wedi cael digon o gyfle i fynd i'r afael â'r meysydd a oedd o bryder – dau fis oedd Ian Mcallister wedi'i gael.
- Cyfeiriodd at amgylchiadau'r digwyddiad (ymosodiad â gwydr) a oedd wedi digwydd ar ôl i Ian Mcallister ddod yn rheolwr ar yr eiddo ar 29 Medi 2018 fel y cyfeiriwyd ato yn nhystiolaeth yr Heddlu a ddwedai fod Goruchwylydd Eiddo

Dynodedig wedi'i gyflogi am gyfnod prawf yn ystod y digwyddiad hwnnw ac roedd rheolwyr yr eiddo'n ei gondemnio am ei weithredoedd wrth ymateb i'r digwyddiad hwnnw.

- mewn ymateb i'r digwyddiadau ychwanegol yn yr eiddo ers cyflwyno'r cais i adolygu (a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod), dywedodd –
    - 26 Hydref 2018 – roedd yn anffodus bod Mark Mcallister yn yr eiddo. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd Mark Mcallister ynghlwm â'r lle bellach a'i fod wedi'i wahardd o'r eiddo; roedd y staff wedi cael cyfarwyddyd i weithredu'r gwaharddiad yn llym. Digwyddodd am 11:05am ac nid oedd staff yn bresennol ar y drws i fynd ag o allan o'r eiddo.
    - 20 Tachwedd 2018 – bu i'r staff ar y drws ddelio â'r ymgais cychwynnol i ymosod ar unwaith ac fe daflwyd yr unigolyn allan o'r eiddo; dywedwyd wrth yr Heddlu am yr ymosodiad arall y tu allan i'r eiddo ac roedd yr eiddo wedi cydweithredu â'r Heddlu ac wedi darparu'r fideo teledu cylch caeëdig i'w cynorthwyo. Digwyddodd hyn am 1:00am a 1:48am.
    - 24 Tachwedd 2018 – bu'r digwyddiad am 1:27am ac roedd yn anodd gwybod beth y gallai'r eiddo fod wedi'i wneud gan ei fod yn ymwneud â rhywun nad oedd yn gysylltiedig â'r eiddo a oedd yn pasio y tu allan. Dywedwyd wrth yr Heddlu am y digwyddiad ac roedd yr eiddo wedi cydweithredu â'r Heddlu.
    - 27 Tachwedd 2018 – ymdriniwyd â'r digwyddiad ar unwaith ac roedd yn ymwneud ag unigolyn yn dod i'r eiddo ac yn ymosod ar deulu a oedd wedi bod yn yr eiddo am rai oriau. Taflwyd yr ymosodwr o'r eiddo ac fe ganiatawyd i'r teulu aros gan nad nhw oedd ar fai.

Wrth gloi ei gyflwyniad, tynnodd Mr Rothwell sylw at amseriad y digwyddiadau y cyfeiriodd yr Heddlu atynt a ddigwyddai, yn gyffredinol, ar ôl 1:00am ac felly cyflwynwyd y byddai amser terfyn o 1:00am fel prawf am dri mis yn briodol, yn enwedig o ystyried amseroedd agor hwyrach sawl eiddo trwyddedig arall yn yr ardal, a byddai'n rhoi mwy o gyfle i Ian Mcallister ddangos y gallai fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder. Roedd yr awgrym am amser terfyn o 1:00am yn ymarferol gan yr ystyrid y byddai'n cynnig yr un canlyniad â chau am hanner nos o gofio amseroedd digwyddiadau blaenorol, ond byddai amser terfyn cynharach yn golygu na fyddai'r busnes yn ymarferol a byddai, gan hynny, yn arwain at gau'r eiddo.

Eglurodd Mr Rothwell a Mr Mcallister faterion gan ymateb i gwestiynau'r aelodau fel a ganlyn –

- roedd un goruchwylydd llawn amser yn cael ei gyflogi ar y drws yn yr eiddo ac roedd gweithiwr arall pan na fyddai yno. Yn flaenorol, roedd goruchwylydd ar ddyletswydd ar y drws o 11:00pm , ond ers i Ian Mcallister ddod yn rheolwr, roedd goruchwylydd ar ddyletswydd ar y drws o 9:00pm ac roedd dau'n gweithio ar y drws o tua 10:30-11:30 ar yr adegau prysuraf – nodwyd mai'r gyfradd o staff ar y drws i gwsmeriaid oedd 1:100 ac nid oedd yr eiddo ond wedi'i drwyddedu i 100 o bobl.
- eglurwyd yr oriau gweithredu a ganiateir yn yr eiddo a oedd wedi'u nodi yn Nhrwydded yr Eiddo (Atodiad A i'r adroddiad) o 7:00am tan 3:00am i ddarparu ar gyfer achlysuron chwaraeon arbennig. Roedd yr eiddo'n arfer agor am

8:00am ond yn dilyn cyngor gan yr Heddlu roedd bellach yn agor am 11:00am yn unol â'r oriau agor arferol a oedd wedi'u nodi yn Nhrwydded yr Eiddo.

- roedd nifer o'r staff wedi'u newid am weithlu hŷn a mwy profiadol ac eglurwyd sefyllfa'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig – roedd y Goruchwylydd presennol, David Jai Jones, wedi dod i'r swydd yn agos at ddiwedd y cyfnod yr oedd Mark Mcallister ynghlwm â rheoli'r eiddo.  Ar adeg yr ymosodiad â gwydr ar 29 Medi 2018, roedd David Jai Jones wedi'i gofrestru fel y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig ond roedd Goruchwylydd dros dro wedi bod ar ddyletswydd yn y swydd honno am gyfnod prawf – nid oedd unrhyw gais i newid y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig wedi'i dderbyn gan nad oedd y Goruchwylydd dros dro wedi'i ystyried yn addas.
- rhoddwyd sicrwydd bod Ian Mcallister, pan ddaeth i reoli'r eiddo, wedi gweithredu'r holl gamau gweithredu ar gais y Cyngor ar unwaith, gan gynnwys teledu cylch caeëdig, goruchwylwyr ar y drysau a hyfforddiant.  Roedd Ian Mcallister wedi'i synnu o glywed nad oedd yr Heddlu wedi'u galw ar unwaith mewn perthynas â'r digwyddiad difrifol ar 29 Medi 2018 ac roedd, ers hynny, wedi dweud wrth staff am roi gwybod am bob digwyddiad i'r Heddlu ar unwaith, ac roedd hynny'n cael ei wneud.
- ymhelaethodd ar brofiad sylweddol Ian Mcallister gyda deng mlynedd ar hugain yn y maes yn cadarnhau ei gymhwysedd fel landlord.
  Roedd wedi derbyn hyfforddiant pellach mewn meysydd a nodwyd gan yr Heddlu i ddarparu mwy o sicrwydd yn hynny o beth.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Ymatebodd y Prif Arolygydd, Andrew Williams, i sylwadau a wnaed fel a ganlyn –

- O ran y cyfarfod gyda chynrychiolydd cyfreithiol Mr Ian Mcallister yr wythnos flaenorol, dywedodd fod ei safbwyntiau wedi'u cyfleu'n anghywir.  Gwahoddwyd y cynrychiolydd cyfreithiol i gyflwyno cynigion ac roedd wedi cadarnhau nad oedd yn barod i dderbyn yr amser terfyn a gynigiwyd o 1:30am ac y byddai'n well ganddo fynd â'r mater ger bron yr Is-bwyllgor Trwyddedu.
- Amheus oedd y cyfeiriad bod Mark Mcallister wedi'i wahardd o'r eiddo o ystyried mai ef oedd mab deiliad y drwydded ac roedd wedi'i recordio ar deledu cylch caeëdig yn ddiweddar ac wedi'i weld yn mynd i mewn ac allan o'r eiddo; roedd hefyd ar ddeall bod Mark Mcallister wedi cysylltu â'r Cyngor mewn perthynas â chyfarfod ynglŷn â'r eiddo.
- roedd yr Heddlu wedi siarad â'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig dros dro ar ôl yr ymosodiad â gwydr ar 29 Medi 2018 a chadarnhawyd bod David Jai Jones yn parhau fel y Goruchwylydd.  Roedd y Goruchwylydd dros dro wedi gofyn i'r Heddlu gael eu galw a dywedodd nad oedd eisiau dim i'w wneud â'r eiddo mwyach.
- o ran yr awgrym bod yr holl achosion yn digwydd ar ôl 1:00am, roedd digwyddiad newydd fod am 12:31am ganol yr wythnos ar 27 Tachwedd 2019. Ar ôl hanner nos, byddai cyfaint sylweddol o alcohol wedi'i yfed.  Roedd pobl feddw wedi bod yn paffio yn yr eiddo ac wedi aros yno ac ni chymerwyd camau priodol i fynd i'r afael â'r mater.

Yn ei ddatganiad terfynol, dywedodd y Prif Arolygydd eto y dylai'r eiddo wneud popeth y gallai i fynd i'r afael ag ymddygiad treisgar ac ni wnaed hynny yma.  Mor

ddiweddar â 27 Tachwedd 2018, roedd problem gyda grŵp o bobl ifanc meddw a oedd wedi cael dod yn ôl i mewn i'r eiddo i barhau i yfed er i'r Heddlu ofyn i'r eiddo wrthod gwerthu i'r unigolion hynny – tystiolaeth ddiweddar nad oedd yr eiddo'n ymdrin â phroblemau'n effeithiol. [Dywedodd Mr Rothwell bod cofnod y digwyddiad yn dweud *"intoxication – not known fully as persons are not known"* ac felly nid oedd yn hysbys a oedd yr unigolion wedi meddwi. Dywedodd y Prif Arolygydd bo yr Heddwas a oedd wedi mynd at y digwyddiad wedi cadarnhau bod yr unigolion yn feddw.]

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (11:00am), gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**Y PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *diddymu'r Drwydded Eiddo.*

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i bawb yn y cyfarfod a rhoddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn –

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau'n ofalus mewn perthynas â'r cais i adolygu Trwydded Eiddo The Barrell a ddygwyd ger bron y Pwyllgor gan Heddlu Gogledd Cymru, canfu'r Is-bwyllgor Trwyddedu y canlynol –

1. Bu methiant sylfaenol yn y modd roedd yr eiddo wedi'i redeg dros nifer o fisoedd yn ddiweddar.

2. Roedd yr Heddlu wedi dangos patrwm o ddigwyddiadau yn yr eiddo a oedd yn peri pryder â dweud y lleiaf, ac a oedd yn gwbl groes i dri o'r amcanion trwyddedu.

    - Roedd trosedd ac anhrefn o fewn yr eiddo ac o'i amgylch ar nifer o achlysuron (fideo TCC)

    - Roedd niwsans cyhoeddus yn yr eiddo ac yn yr ardal gyfagos bob awr o oriau mân y bore

    - Roedd yr achlysuron o drais o fewn ac o amgylch yr eiddo'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd yn ddifrifol.

3. Nid oedd unrhyw un o'r digwyddiadau wedi'u gwadu na'u lliniaru mewn unrhyw fodd gan reolwyr yr eiddo.

4. Heb ystyried bod Ian Mcallister yn ddiweddar wedi dod i redeg yr eiddo, roedd digwyddiadau treisgar yn dal wedi bod mor ddiweddar â dydd Llun/dydd Mawrth yr wythnos hon.

5. Caniatawyd i bobl feddw ddod yn ôl i mewn i'r eiddo ar ôl y ffrwgwd, er i'r Heddlu gynghori'r eiddo y dylai'r cwsmeriaid hynny fynd am adref. Roedd hynny'n dangos nad oedd yr eiddo'n malio llawer am gyngor yr Heddlu ac fe

fethodd â gweld yr effaith o barhau i werthu i bobl a oedd eisoes wedi meddwi'n llwyr.

6. Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu’n credu bod perygl uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd pe bai’r eiddo’n dal i weithredu.

7. Er y derbynnid bod amryw broblemau cymdeithasol yn y Rhyl, nid oedd unrhyw ymgais i liniaru’r ymddygiad a oedd yn parhau i ymddangos o fewn ac o amgylch yr eiddo hwn.

8. Roedd yr eiddo wedi methu â dangos camau gweithredu digonol a fyddai’n sicrhau’r Is-bwyllgor Trwyddedu.

   a. Nid oeddent yn barod i gwtogi’r oriau gweithredu i hanner nos (er dangos bod y rhan fwyaf o’r achosion yn digwydd ar ôl hanner nos).
   b. Roeddent wedi methu â darparu staff digonol ac effeithiol ar y drws.
   c. Roeddent wedi methu â chydymffurfio â’r Heddlu mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Cydnabyddid bod y rheolwr newydd wedi cymryd rhai camau ers dod yn rheolwr ar yr eiddo, ond nid oedd y rhain wedi cael yr effaith a ddymunid ac roedd digwyddiadau difrifol wedi parhau i fod. Yn benodol bwysig oedd yr ymosodiad difrifol â gwydr ar ferch yn yr eiddo. Yn ei hanfod, roedd yn rhy hwyr a dim digon o newid wedi bod.

Cafodd pob un wybod am yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu i’r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hugain.

**4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED SAFLE NEWYDD – ORIGIN 168 Y STRYD FAWR, PRESTATYN**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (dosbarthwyd yn flaenorol) ar –

(i) gais a dderbyniwyd gan Mr Michael Kenneth Watts ar gyfer Trwydded Eiddo newydd mewn perthynas ag Origin, 168 y Stryd Fawr, Prestatyn, er mwyn gweithredu fel bar gyda cherddoriaeth gefndir dawel gan werthu alcohol i’w yfed ar ac oddi ar yr eiddo;

(ii) cais gan yr ymgeisydd am ganiatâd i ddarparu’r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER DECHRAU | AMSER GORFFEN |
|---|---|---|---|
| Cerddoriaeth wedi’i recordio (dan do) | Dydd Sul - dydd Iau | 12:00 | 23:00 |
| | Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 12:00 | 01:00 |
| Amseroedd ansafonol | Dydd Sul Gŵyl y Banc | 12:00 | 00:00 |
| Amrywiadau tymhorol | Nos Galan | 11:00 | 02:00 |
| | Noswyl Nadolig | 11:00 | 01:00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwerthu alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo) | Dydd Sul - dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn<br>Dydd Sul Gŵyl y Banc<br>Nos Galan<br>Noswyl Nadolig | 12:00<br>12:00<br><br>12:00<br>11:00<br>11:00 | 23:00<br>01:00<br><br>00:00<br>02:00<br>01:00 |
| Oriau y bydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd | Fel rhai a geisir ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy | | |

(iii) sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â'r cais a nifer o amodau a gynigiwyd (yr oedd yr Ymgeisydd wedi cytuno iddynt) i gael eu gosod pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu er mwyn hyrwyddo amcanion trwyddedu atal trosedd ac anhrefn a gwarchod plant rhag niwed (Atodiad B i'r adroddiad);

(iv) sylwadau a gyflwynwyd gan Adran Rheoli Llygredd y Cyngor (Atodiad E i'r adroddiad) yn mynegi pryderon ynglŷn â pha mor agos yw'r eiddo at gartrefi preswyl a nifer o amodau a gyflwynwyd ganddynt (yr oedd yr Ymgeisydd wedi cytuno iddynt) i gael eu gosod pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu er mwyn helpu i atal niwsans cyhoeddus;

(v) un sylw ysgrifenedig a dderbyniwyd gan rai sydd â chysylltiad (Atodiad D i'r adroddiad) mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus yn ymwneud yn bennaf ag aflonyddwch posib' o sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

(vi) y swyddogion wedi cychwyn cyfryngu rhwng yr Ymgeisydd a'r rhai sydd â chysylltiad heb gyrraedd datrysiad hyd yma;

(vii) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth briodol i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; i Ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; i ddeddfwriaeth arall berthnasol ac i sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a'r

(viii) opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) yr adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos. Er bod Heddlu Gogledd Cymru ac Adain Rheoli Llygredd y Cyngor wedi dod i gytundeb ynglŷn ag amodau y dylid eu gosod ar y drwydded i fynd i'r afael â phryderon a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ni ddaethpwyd i gytundeb gyda'r rhai sydd â chysylltiad drwy gyfryngu.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr ymgeisydd, Mr Michael Watts, yn bresennol i gefnogi ei gais.

Eglurodd Mr Watts ei fod wedi ymgeisio am drwydded gerddoriaeth er mwyn chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn y cefndir yn unig a'r bwriad oedd creu amgylchedd i sgwrsio a chymdeithasu wedi'i anelu at gwsmeriaid hŷn. [Eglurodd y

Swyddog Trwyddedu nad oedd cerddoriaeth gefndir wedi'i recordio yn weithgaredd a reoleiddir a oedd angen ei drwyddedu.]

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y sylwadau ysgrifenedig a nifer o amodau a gytunwyd rhwng yr Ymgeisydd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach (i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad). Gofynnodd yr Heddlu a fyddai'r aelodau'n ystyried cynnwys yr amodau hynny yn yr Atodlen Weithredu pe baent yn penderfynu caniatáu'r cais.

**CYFLWYNIAD ADAIN IECHYD YR AMGYLCHEDD**

Cyfeiriodd Mr Philip Caldwell o Adain Iechyd yr Amgylchedd at ei sylwadau ysgrifenedig (Atodiad C i'r adroddiad) a gynigiai nifer o amodau (y cytunwyd arnynt gyda'r Ymgeisydd) i'w gosod ar y drwydded, pe bai'n cael ei rhoi, er mwyn atal niwsans cyhoeddus. Ychwanegodd Mr Caldwell ei fod wedi siarad â'r Ymgeisydd hefyd mewn perthynas â'r broses gynllunio a gofynnodd i rwystrau sŵn addas gael eu gosod yn yr eiddo. Gyda'r mesurau ychwanegol hynny, dywedodd Mr Caldwell nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais, yn enwedig os oedd wedi'i gyfyngu i gerddoriaeth gefndir yn unig.

**CYFLWYNIAD Y RHAI Â CHYSYLLTIAD**

Roedd un sylw ysgrifenedig wedi ei dderbyn (Atodiad D i'r adroddiad) gan un a oedd â chysylltiad, Miss P.E. Stevens o'r Stryd Fawr, Prestatyn. Roedd Miss Stevens wedi dweud na fyddai'n bresennol yn y cyfarfod ac roedd yn fodlon i'r gwrandawiad barhau heb iddi fod yno ac i'w sylwadau ysgrifenedig gael eu hystyried yn rhan o'r broses honno. Yn dilyn hynny, darllenwyd ei sylwadau ar lafar i'r Is-bwyllgor Trwyddedu ac roeddent yn mynegi pryder ynglŷn â niwsans sŵn posib' ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau'r aelodau fel a ganlyn -

- Y bwriad oedd darparu ar gyfer cwsmeriaid aeddfed, hŷn yn hytrach na'r genhedlaeth iau, a fydd efallai'n rhoi peth cysur i'r unigolyn sydd wedi mynegi pryderon ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr eiddo.
- nid oedd lle parcio penodol ar gyfer cwsmeriaid, ond os oedd cwsmeriaid yn yfed, ni ddylent fod yn gyrru beth bynnag ac nid oedd eiddo trwyddedig tebyg yn yr ardal yn darparu lle parcio i gwsmeriaid.
- cadarnhaodd ei fod yn rhedeg safle trwyddedig arall yn Abergele ac roedd yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol i werthu alcohol.
- Roedd angen ailwampio/ail-wneud yr eiddo a oedd wedi bod ar gau am oddeutu wyth mlynedd ac roedd disgwyl i'r eiddo fod yn barod i agor o amgylch Pasg 2019.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Wrth wneud datganiad terfynol, soniodd Mr Watts eto am ei fwriad i agor bar gin wedi'i anelu at gwsmeriaid hŷn gan ddarparu cerddoriaeth gefndir isel er mwyn gallu sgwrsio.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (11:55am), gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**Y PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr amodau a nodir isod, rhoi Trwydded Safle (fel y gwnaed cais amdani) ar gyfer y canlynol –*

| ***GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY*** | ***DYDDIAU PERTHNASOL*** | ***AMSEROEDD*** |
|---|---|---|
| *Cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do)* | *Dydd Sul – dydd Iau*<br>*Dydd Gwener a dydd Sadwrn* | *12:00 – 23:00*<br>*12:00 – 01:00* |
| *Amseroedd ansafonol*<br>*Amrywiadau tymhorol* | *Dydd Sul Gŵyl y Banc*<br>*Nos Galan*<br>*Noswyl Nadolig* | *12:00 – 00:00*<br>*11:00 – 02:00*<br>*11:00 – 01:00* |
| *Gwerthu alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar y safle)* | *Dydd Sul – dydd Iau*<br>*Dydd Gwener a dydd Sadwrn*<br>*Dydd Sul Gŵyl y Banc*<br>*Nos Galan*<br>*Noswyl Nadolig* | *12.00 – 23:00*<br>*12:00 – 01:00*<br>*12:00 – 00:00*<br>*11:00 – 02:00*<br>*11:00 – 01:00* |
| *Oriau mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd* | *Fel rhai a geisir ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy* | |

***AMODAU***

***Fel y cawsant eu cyflwyno gan Heddlu Gogledd Cymru –***

*Atal Trosedd ac Anhrefn*

*1)* ***<u>TCC</u>***

*a) Bydd system teledu cylch caeëdig yn cael ei gosod yn yr adeilad a bydd ar waith pryd bynnag y bo'r safle ar agor.*
*b) Bydd gan y system teledu cylch caeëdig (TCC) gamerâu yn monitro tu mewn a thu allan yr adeilad. Yn achos tu mewn yr eiddo bydd digon o gamerâu wedi eu gosod i weld pob rhan o'r adeilad y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, ac eithrio ardal y toiledau. Mae'n rhaid i'r holl bwyntiau mynediad ac ymadael ddangos pen ac ysgwyddau'n glir.*
*c) Bydd y system TCC yn ddigon safonol i fedru darparu delweddau o ansawdd tystiolaethol a gallu adnabod wynebau mewn pob math o olau.*

*d) Bydd gan y system TCC gyfleuster i recordio delweddau o bob camera a bydd y lluniau hyn yn cael eu cadw am o leiaf 28 diwrnod.*
*e) Bydd y system TCC yn cynnwys cyfleuster sy’n nodi’r dyddiad a'r amser cywir ar y delweddau sy’n cael eu recordio.*
*f) Bydd gan y system TCC gyfleuster er mwyn gallu llwytho delweddau i ryw fath o gyfrwng cludadwy. Cyfrifoldeb deiliad trwydded yr eiddo yw darparu cyfrwng cludadwy, a phe bai cyfrwng cludadwy yn cael ei feddiannu, mae'n gyfrifoldeb ar y safle i sicrhau bod fformatau ychwanegol o gyfryngau cludadwy ar gael.*
*g) Bydd delweddau o'r system TCC ar gael i’r Heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gais.*
*h) Bydd o leiaf un aelod o staff a fydd wedi'i hyfforddi i weithredu’r system TCC ac a fydd yn gallu darparu'r delweddau a recordiwyd o'r system TCC ar ddyletswydd ar bob achlysur pan fo’r safle ar agor.*
*i) Mae’n rhaid i’r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig sicrhau fod y system TCC yn cael ei wirio’n ddyddiol ar ddechrau pob diwrnod – bydd unrhyw ddiffygion yn y system yn cael sylw ar unwaith.*
*Rhaid i hyn gynnwys gwirio bod y camerâu yn gweithio, y cyfleusterau recordio, cyfleusterau ar gyfer darparu delweddau a chywirdeb yr amser a'r dyddiad. Mae’n rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r gwiriadau hyn, gan gynnwys llofnod y person sy'n cynnal y gwiriad. Mae’n rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gael ei gadw ar y safle bob amser a dylai fod ar gael i gynrychiolydd o unrhyw awdurdod cyfrifol ar gais.*

*2) **CYN** cael caniatâd i werthu alcohol bydd pob aelod o staff heb drwydded bersonol, gan gynnwys unrhyw aelodau o staff di-dâl, aelodau'r teulu a phobl achlysurol a allai fod yn gysylltiedig â gwerthu alcohol ar y safle, gael eu hyfforddi yn eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r Ddeddf honno – yn benodol, byddant yn cael hyfforddiant ar werthu alcohol i bobl feddw.*

*3) Cynhelir hyfforddiant gloywi mewn perthynas â’r hyfforddiant cychwynnol y sonnir amdano yn rhif 2 uchod ar gyfer pob aelod o staff sy'n ymwneud â gwerthu alcohol bob chwe mis.*

*4) Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r hyfforddiant cychwynnol a’r hyfforddiant gloywi dilynol a dderbyniwyd a bydd yn cael ei gyflwyno i’r Heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gais.*

*5) Llyfr Digwyddiadau a Gwrthodiadau – rhaid cadw llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau (gyda’r tudalennau wedi’u rhifo) ar y safle a bydd ar gael i'w archwilio gan yr awdurdodau cyfrifol. Rhaid defnyddio'r llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau i gofnodi'r canlynol:*

*a) Unrhyw achos o drais neu anhrefn ar neu yn union y tu allan i'r safle.*
*b) Unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â chyffuriau (cyflenwi/meddiant/dylanwad) ar y safle.*
*c) Unrhyw drosedd neu weithgarwch troseddol arall ar y safle.*
*d) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i bobl sy'n feddw.*

e) *Unrhyw achos o wrthod gweini alcohol i rai dan 18 oed neu unrhyw un sy'n ymddangos o dan 18 oed.*
f) *Unrhyw alwad am gymorth yr Heddlu, ambiwlans neu’r gwasanaeth tân i'r safle.*
g) *Unrhyw un sy’n cael ei anfon o’r safle.*
h) *Unrhyw gymorth cyntaf/gofal arall o roddir i gwsmer.*

6) *Rhaid i’r manylion fydd yn cael eu cofnodi o fewn y llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau gynnwys y canlynol:*

a) *Amser, diwrnod a dyddiad y digwyddiad neu wrthodiad.*
b) *Enw’r sawl sy’n cofnodi.*
c) *Tyst o blith y staff.*
d) *Enw a chyfeiriad y cwsmer (os yw’n cael ei roi).*
e) *Disgrifiad o’r cwsmer.*
f) *Rheswm am wrthod neu natur y digwyddiad.*
g) *A gafodd yr heddlu, ambiwlans neu'r gwasanaeth tân eu galw?*

7) *Mae’n rhaid i'r llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau fod ar gael i'w archwilio gan awdurdodau cyfrifol ar gais. Gall yr wybodaeth hon hefyd gael ei chofnodi’n electronig trwy ddefnyddio system til neu system debyg.*

8) *Pob nos Wener a Sadwrn, pob Gŵyl y Banc, Noswyl Nadolig a Nos Galan, bydd o leiaf ddau oruchwylydd ar y drws sydd wedi eu cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn cael eu cyflogi o 21:00 hyd nes y bydd y safle’n cau ar gyfer busnes a’r cwsmeriaid i gyd wedi gadael.*
*Bydd y bobl hyn yn cael eu cyflogi’n benodol er mwyn rheoli'r cwsmeriaid sy’n dod i mewn ac allan a chadw trefn ar y safle.*

*Amddiffyn Plant Rhag Niwed*

1) *Bydd y safle’n gweithredu polisi gwirio oedran Her 25.*

2) *Bydd yr holl staff, gan gynnwys unrhyw aelodau di-dâl o staff, aelodau'r teulu a gweithwyr achlysurol sydd ynghlwm â gwerthu alcohol yn cael eu hyfforddi am bolisi Her 25 CYN cael caniatâd i werthu alcohol a byddant yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi bob chwe mis o leiaf.*

3) *Bydd cofnodion o'r hyfforddiant Her 25 yn cael eu cadw a byddant ar gael i'w harchwilio gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol ar gais.*

***Fel y cyflwynodd Adran Rheoli Llygredd y Cyngor –***

1) *Bydd yr holl ddrysau a ffenestri yn wydr dwbl eilaidd neu well, i leihau’r sŵn.*

2) *Bydd yr holl fynedfeydd ac allanfeydd, heb gynnwys allanfeydd tân, yn cynnwys mynedfeydd cyntedd, a phob un gyda 2 set o ddrysau’n cau ar eu pennau eu hunain, er mwyn lleihau’r sŵn; bydd y ddwy set o ddrysau’n aros ar gau ac eithrio pan mae rhywun yn mynd i mewn ac allan tra bo adloniant wedi'i*

*reoleiddio ar fynd y tu mewn ar lefel sy'n cael ei chyfrif yn uwch na sŵn yn y 'cefndir'.*

3) *Bydd yr holl ddrysau a ffenestri yn cael eu cadw ar gau pan fo cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel sy'n cael ei chyfrif yn uwch na sŵn 'cefndir' i leihau unrhyw sŵn fyddai'n cael ei ryddhau.*

4) *Bydd cyfyngwyr sŵn yn cael eu gosod ar offer chwyddo sŵn ac yn cael eu gosod ar lefel sydd wedi ei chytuno gyda Swyddogion Rheoli Llygredd Cyngor Sir Ddinbych. Bydd cyfyngwyr yn cael eu defnyddio bob tro y bydd offer chwyddo'n cael ei ddefnyddio ar gyfer adloniant wedi'i reoleiddio.*

5) *Os oes angen mwy o awyr iach, bydd system awyru/tymheru aer wedi'i thrin yn acwstig yn cael ei gosod yn yr eiddo rhag bod angen agor drysau a ffenestri pan fo cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel sy'n cael ei chyfrif yn uwch na sŵn 'cefndir'.*

6) *Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth fyw/wedi ei recordio y tu allan.*

7) *Bydd yr ardal ysmygu'n cael ei chau i'r cyhoedd ar gyfer yfed alcohol cyn 09:00 ac ar ôl 23:00.*

8) *Er mwyn osgoi tarfu ar eiddo gerllaw, dim ond rhwng 09:00 a 21:00 y caniateir gosod poteli mewn cynwysyddion y tu allan i'r eiddo.*

9) *Bydd arwyddion amlwg a chlir yn cael eu harddangos ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion y trigolion lleol a gadael yr eiddo a'r ardal yn dawel.*

10) *Ni fydd unrhyw oleuadau llachar na goleuadau sy'n fflachio yn cael eu gosod ar nac y tu allan i'r eiddo a bydd unrhyw oleuadau mynediad neu ddiogelwch yn cael eu gosod a'u gweithredu fel na fyddant yn achosi niwsans i drigolion gerllaw.*

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i'r Ymgeisydd a rhoddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn –

Roedd yr aelodau wedi ystyried y cais a'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr achos hwn yn ofalus ac roeddent yn fodlon bod yr amodau arfaethedig y cytunwyd arnynt gyda'r Heddlu ac Adain Rheoli Llygredd y Cyngor yn gymesurol ac y byddent yn helpu i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu bryderon y sawl a oedd â chysylltiad. Dywedodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu mai bwriad yr Ymgeisydd oedd chwarae cerddoriaeth gefndir yn unig ac nad oedd yn weithgaredd a reoleiddir. Pe bai'r eiddo'n chwarae cerddoriaeth a fyddai'n cael ei gyfrif yn weithgarwch a reoleiddir, roeddent yn fodlon y byddai'r amodau y cytunwyd arnynt rhwng yr Ymgeisydd ac Adain Rheoli Llygredd y Cyngor yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sŵn gan y sawl a oedd â chysylltiad yn hynny o beth.

Cynghorwyd pawb am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor i'r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hugain.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:05 p.m.